GIG

*Sefydliad Cenedlaethol*
*dros Ragoriaeth Glinigol*

# Lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn

## Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd

Rhagfyr 2003

**Lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn**
**Deall arweiniad NICE – gwybodaeth i bobl sy'n ystyried y weithdrefn, a'r cyhoedd**

**Dyddiad cyhoeddi:** Rhagfyr 2003

**I archebu copïau**
Gellir archebu copïau o'r llyfryn hwn o Linell Ymateb y GIG; ffoniwch 0870 1555 455 a dyfynnwch y rhif cyfeirnod N0405. Mae copi Saesneg yn unig ar gael hefyd, rhif cyfeirnod N0404. Mae arweiniad ymyriadau NICE y seiliwyd y wybodaeth hon arno ar gael o wefan NICE (www.nice.org.uk). Gellir cael copïau o Linell Ymateb y GIG hefyd, rhif cyfeirnod N0403.d

**Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol**

MidCity Place
71 High Holborn
London
WC1V 6NA

Gwefan: www.nice.org.uk

ISBN: 1-84257-478-7

Cyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol Rhagfyr 2003
Cysodwyd gan Icon Design, Eton
Argraffwyd gan Abba Litho Sales Limited, Llundain

Ⓗ Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol, Rhagfyr 2003. Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r deunydd hwn am ddim at ddibenion addysgol ac at ddibenion nad ydynt yn gysylltiedig ag elw o fewn y GIG. Ni chaniateir atgynhyrchu gan neu ar gyfer sefydliadau masnachol heb ganiatâd ysgrifenedig uniongyrchol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ynglŷn â'r wybodaeth hon | 4 |
| Ynglŷn â lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn | 5 |
| Beth y mae NICE wedi'i benderfynu | 8 |
| Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi | 9 |
| Gwybodaeth bellach | 10 |

# Ynglŷn â’r wybodaeth hon

Mae'r wybodaeth hon yn disgrifio'r arweiniad y mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi ei ddosbarthu i'r GIG ar weithdrefn a elwir yn lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn. Nid yw'n ddisgrifiad cyflawn o'r hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu - dylai tîm gofal iechyd y claf ei disgrifio yn fanwl.

Mae NICE wedi edrych ar p'un a yw lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio fel triniaeth arferol ar gyfer trin lledewigwst (a elwir hefyd yn glwy’r marchogion neu ’piles’).

Er mwyn llunio’r arweiniad hwn, mae NICE wedi:

- edrych ar ganlyniadau astudiaethau o ba mor ddiogel yw lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn ac o ba mor dda y mae’n gweithio
- gofyn am farn arbenigwyr
- gofyn am farn sefydliadau sy’n cynrychioli gweithwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd a’r cleifion a’r gofalwyr yr effeithir arnynt gan yr arweiniad hwn.

Mae’r arweiniad hwn yn rhan o’r gwaith y mae NICE yn ei wneud ar ‘ymyriadau’ (gweler ‘Gwybodaeth bellach’ ar dudalen 10).

# Ynglŷn â lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn

Mae lledewigwst yn bibellau gwaed wedi chwyddo o amgylch yr anws (a chânt eu galw'n lledewigwst allanol), neu y tu fewn i ran gwaelod y rectwm (a chânt eu galw'n lledewigwst mewnol). Byddant yn aml yn datblygu yn ystod beichiogrwydd neu oherwydd straen pan fydd yr unigolyn yn dioddef o rwymedd. Gall lledewigwst mewnol ymwthio allan o'r anws, a gallai hyn achosi cosi, gwaedu a phoen.

Mae'r triniaethau arferol ar gyfer lledewigwst yn cynnwys eli steroid a diet uchel mewn ffibr neu foddion gweithio i atal rhwymedd. Os na fydd y rhain yn gweithio, gellir tynnu'r lledewigwst a'r feinwe gyfagos drwy lawdriniaeth. Mae lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn yn driniaeth fwy newydd ar gyfer lledewigwst mewnol. Rhoddir styffylwr crwn arbennig yn y rectwm, i dorri darn crwn allan o leinin y rectwm (a elwir yn fwcosa rhefrol) uwchben y lledewigwst. Mae hyn yn gostwng y cyflenwad gwaed i'r lledewigwst, ac yn eu lleihau.

## *Pa mor dda y mae'n gweithio*

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Dangosodd canlyniadau'r astudiaethau fod pobl a gafodd ledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn yn dioddef llai o boen a'u bod wedi gallu dychwelyd at weithgareddau arferol yn gynharach na phobl a gafodd y math arferol o lawdriniaeth ar gyfer lledewigwst. Mewn un astudiaeth, dychwelodd pobl a gafodd y weithdrefn i'w gwaith ymhen 6 diwrnod ar gyfartaledd, a dychwelodd pobl a gafodd y driniaeth arferol i'w gwaith ymhen 15 diwrnod ar gyfartaledd.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr fod llawer o lawfeddygon eisoes yn cynnal y weithdrefn hon, a'i bod yn gweithio cystal â'r llawdriniaeth arferol. Ond nid oedd llawer o wybodaeth yn nodi a oedd y lledewigwst yn debygol o ddychwelyd ymhen misoedd neu flynyddoedd ar ôl y weithdrefn.

## *Risgiau a phroblemau posibl*

### Yr hyn a ddywedodd yr astudiaethau

Roedd problemau fel gwaedu ar ôl y weithdrefn yn llai cyffredin gyda lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn na gyda'r math arferol o lawdriniaeth.

### Yr hyn a ddywedodd yr arbenigwyr

Dywedodd yr arbenigwyr y bu rhai pryderon y gallai'r styffylwr niweidio'r anws, neu fur y rectwm o dan y mwcosa. Ond ymddengys nad yw'r rhain yn broblem mewn gwirionedd.

## Beth y mae NICE wedi'i benderfynu?

Mae NICE wedi ystyried y dystiolaeth am ledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn. Mae wedi argymell pan fydd meddygon yn ei ddefnyddio ar gyfer pobl sydd â lledewigwst mewnol, y dylent sicrhau:

- bod y claf yn deall yr hyn y mae'r weithdrefn yn ei olygu ac yn cytuno (rhoi caniatâd) i'r driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r weithdrefn eu monitro.

Dylai meddygon sydd am gynnal lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn gael hyfforddiant arbennig.

# Beth y mae'r penderfyniad yn ei olygu i chi

Efallai fod eich meddyg wedi cynnig triniaeth lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn i chi. Mae NICE wedi ystyried y weithdrefn hon am ei bod yn gymharol newydd. Mae NICE wedi penderfynu bod y weithdrefn yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Fodd bynnag, dylech ddeall manteision a risgiau triniaeth lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn cyn i chi gytuno i gael y weithdrefn. Dylai eich meddyg drafod y manteision a'r risgiau gyda chi. Efallai fod rhai o'r manteision a'r risgiau hyn wedi'u disgrifio yn y llyfryn hwn.

## Gwybodaeth bellach

Mae gennych hawl i gael yr holl wybodaeth ac i gymryd rhan yn y penderfyniad a wneir am y driniaeth a gewch. Efallai y byddwch am drafod yr arweiniad hwn gyda'r meddygon a'r nyrsys sy'n gofalu amdanoch.

Gallwch ymweld â gwefan NICE (www.nice.org.uk) i gael gwybodaeth bellach am y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol a'r Rhaglen Ymyriadau. Mae copi o'r arweiniad llawn am driniaeth lledewigwstectomi gan ddefnyddio styffylwr crwn ar wefan NICE (www.nice.org.uk/IPG034guidance), neu gallwch archebu copi o'r wefan neu drwy ffonio Llinell Ymateb y GIG ar 0870 1555 455 a dyfynnu rhif cyfeirnod N0403. Mae'r dystiolaeth a ystyriodd NICE wrth ddatblygu'r arweiniad hwn hefyd ar gael o wefan NICE.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am ledewigwst, mae Galw Iechyd Cymru yn fan cychwyn da (ffoniwch 0845 46 47), neu Galw Iechyd Cymru Ar-lein (www.nhsdirect.wales.nhs.uk).

Dyddiad: Rhagfyr 2003